

Peidiwch ag ysgrifennu ar y daflen gwestiynau hon.

Gallwch ddefnyddio'r papur a ddarperir ar gyfer eich gwaith cyfrifo ond nodwch yr atebion terfynol yn unig ar y daflen atebion yn y lle a ddarperir. Mae pob ateb cywir yn werth un marc.

Cwestiwn 1

Trefnodd athrawon weithgareddau ar gyfer tri dosbarth o 24 o ddisgyblion a phedwar dosbarth o 26 o ddisgyblion.

Beth oedd **cyfanswm nifer y disgyblion** a gymerodd ran?

Cwestiwn 2

Fel rhan o wers wyddoniaeth, gofynnwyd i ddisgyblion ymestyn hyd sbring 25 y cant. Hyd gwreiddiol y sbring oedd 30 centimetr.

Beth ddylai hyd y sbring fod ar ôl ei ymestyn? **Rhowch eich ateb mewn centimetrau.**

Cwestiwn 3

Roedd disgwyl i noson rieni ddechrau am 15:45. Roedd 20 apwyntiad olynol o 10 munud yr un ac egwyl o 15 munud yn ystod y noson. Faint o'r gloch roedd disgwyl i'r noson rieni **orffen**? **Nodwch eich ateb gan ddefnyddio'r cloc 24 awr.**

Cwestiwn 4

Ar gyfer prawf gwyddoniaeth, roedd angen 80 mililitr o finegr ar yr athro ar gyfer pob disgybl. Roedd 30 o ddisgyblion yn y dosbarth. Daw finegr mewn poteli 1000 mililitr.

Sawl potel o finegr roedd ei hangen?

Cwestiwn 5

Dechreuodd sesiwn y bore mewn ysgol am 09:25. Roedd tair gwers o 50 munud yr un ac egwyl o 20 munud. Faint o'r gloch y gorffennodd sesiwn y bore? **Nodwch eich ateb gan ddefnyddio'r cloc 24 awr.**

Cwestiwn 6

Mewn dosbarth o 24 o ddisgyblion, mae angen cymorth ychwanegol ar 4.

Pa **ffracsiwn** o'r dosbarth roedd angen cymorth ychwanegol arno? Nodwch eich ateb yn y **termau lleiaf**.

Cwestiwn 7

Mae 207 o ddisgyblion ym mlwyddyn 7. Rhoddir geiriadur i bob disgybl yn y flwyddyn. Petai geiriaduron wedi eu pacio mewn blychau o 16, sawl blwch sydd ei angen?

Cwestiwn 8

Cymerodd pob un o'r 30 o ddisgyblion mewn dosbarth ran mewn digwyddiad sillafu noddedig er mwyn codi arian i elusen. Roedd disgwyl i'r disgyblion sillafu 14 o eiriau'n gywir yr un, ar gyfartaledd. Swm cyfartalog yr arian nawdd oedd 20 ceiniog ar gyfer pob gair a sillafwyd yn gywir.

Faint o arian byddai'r dosbarth wedi disgwyl ei godi? **Rhowch eich ateb mewn punnoedd.**

Cwestiwn 9

Codwyd £60 gan ddisgyblion ar ras noddedig. Penderfynwyd i roi'r arian i ddwy elusen, WaterAid a Oxfam yn y **gymhareb** 3:2. Beth yw'r rhodd i **WaterAid**?


Cwestiwn 10

Aeth athro â grŵp o ddisgyblion i acwariwm tra oeddent ar daith yn Ffrainc. Cyfanswm y cost mynediad ar gyfer y grŵp oedd 220 ewro. Gan gymryd bod 1.10 ewro yn cyfateb i 1 bunt, beth oedd **cyfanswm y cost mynediad, mewn punnoedd**, ar gyfer y grŵp o ddisgyblion?

Cwestiwn 11

Er mwyn ei helpu i ddewis deunyddiau darllen, edrychodd athrawes gynradd ar ystod yr oedrannau darllen yn ei dosbarth. Mae'r graff gwasgariad yn dangos oedran gwirioneddol ac oedran darllen 21 o ddisgyblion yn y dosbarth.


Defnyddiwch y wybodaeth ar y graff gwasgariad i'ch helpu i ateb cwestiynau a) i c) isod



- a) Pa **ffracsiwn** o'r dosbarth sydd ag oedran darllen uwch na'u hoedran gwirioneddol?
- b) Beth yw oedran y **disgybl hynaf** yn y dosbarth?
- c) Beth yw **ystod oedrannau gwirioneddol** y disgyblion yn y dosbarth? Rhowch eich ateb mewn **misoedd**

Cwestiwn 12

Mae'r graff isod yn dangos asesiadau athro ar gyfer canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 neu uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 mewn ysgol gynradd.



Defnyddiwch y graff i benderfynu pa rai o'r datganiadau canlynol sy'n **wir** o ran cyflawni Lefel 4 neu uwch:-

- A. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 neu uwch mewn Saesneg wedi cynyddu yn ystod pob blwyddyn a nodir
- B. Yn 2011, cyflawnodd 77% o ddisgyblion Lefel 4 neu uwch mewn Mathemateg
- C. Canolrif y ganran gyfartalog ar gyfer cyflawniad mewn Gwyddoniaeth yn ystod y cyfnod hwn yw 77%

Cwestiwn 13

Mae athro addysg gorfforol yn archebu 30 o fibiau newydd sy'n costio £3.99 yr un. Beth yw **cyfanswm pris** y bibiau?

Cwestiwn 14

Trefnwyd taith ysgol â chyfanswm cost o £120 fesul disgybl. Costiodd y llety dri phumed o'r cyfanswm. Beth oedd **cost y llety fesul disgybl**?

Cwestiwn 15

Mewn cyfarfod staff, cyflwynodd y Pennaeth y tabl canlynol sy'n nodi nifer y disgyblion ym mhob dosbarth mewn ysgol sy'n cael gwersi cymorth Rhifedd.

Pa **ganran** o'r disgyblion yn yr ysgol sy'n cael gwersi cymorth Rhifedd?

Dosbarth	Nifer y disgyblion	Nifer y disgyblion sy'n cael gwersi cymorth Rhifedd
P	28	6
V	28	7
T	32	3
M	32	2

Cwestiwn 16

Mae athrawes yn cymryd 2 awr ac 20 munud i farcio ugain o bapurau prawf llythrennedd. Beth yw **cymedr** yr amser a gymerwyd i farcio un papur. Rhowch eich ateb mewn munudau

Cwestiwn 17

Mae athrawes yn trefnu taith i weld sioe mewn dinas gyfagos. Mae wedi cael manylion y costau a'r trefniadau teithio. Mae 20 o ddisgyblion yn y grŵp. Mae tocynnau theatr ar gyfer grŵp o 20 yn costio £160, ac mae tocynnau trên dwyffordd yn costio £6 yr un.

Faint bydd yn rhaid i bob disgybl ei dalu ar gyfer y daith er mwyn cwmpasu cost y teithio a thocyn i'r theatr?

Cwestiwn 18

Caiff sgôr bwyntiau TGAU gyfartalog gymedrig disgybl ei chyfrifo drwy rannu cyfanswm ei bwyntiau yn yr holl bynciau â nifer yr arholiadau TGAU y gwnaeth eu sefyll. Mae'r tabl isod yn nodi holl ganlyniadau Kate yn 2011. Defnyddiwch y tabl i helpu i gyfrifo **sgôr bwyntiau TGAU gymedrig** Kate

Gradd	Pwyntiau fesul gradd	Nifer y canlyniadau ym mhob gradd	Cyfanswm pwyntiau fesul gradd
A*	58	3	174
A	52	2	104
B	46	4	184
C	40	1	40
CYFANSWM	

Nodwch yr atebion yn unig yn y lle a ddarperir

Enw:

Maes pwnc:

Rhif y cwestiwn	Ateb
1	disgybl
2	cm
3	
4	potel
5	
6	
7	blwch
8	£
9	£
10	£

Rhif y cwestiwn	Ateb
11 a	
11 b	blwyddyn mis
11 c	mis
12	Datganiadau gwir:-
13	£
14	£
15	%
16	munud
17	£
18	pwynt

Cyfanswm y sgôr =

UN MARC AM BOB ATEB CYWIR

Rhif y cwestiwn	Ateb
1	176 disgybl
2	37.5 cm
3	19:20
4	3 potel
5	12:15
6	$\frac{1}{6}$
7	13 blwch
8	£ 84
9	£ 36
10	£ 200

Rhif y cwestiwn	Ateb
11 a	$\frac{8}{21}$
11 b	6 blwyddyn 10 mis
11 c	13 mis
12	Datganiadau gwir:- B a C
13	£ 119.70
14	£ 72
15	15 %
16	7 munud
17	£ 14
18	50.2 pwynt

Uchafswm sgôr = 20